



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
Heintiedig Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

WIBSS
Velindre Cancer Centre
Velindre Road
Whitchurch
Cardiff
CF14 2TL

EBOST / EMAIL: wibss@wales.nhs.uk
Y WE / WEB: wibss.wales.nhs.uk
FFÔN / TELEPHONE: 02920 902280

I bwy bynnag a fynno wybod,

Parthed: Aseidiadau Ariannol a Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru

Pwrpas y llythyr hwn yw darparu gwybodaeth am daliadau ex-gratia a chyfalaf cysylltiedig o Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) a'r effaith ar aseidiadau ariannol sy'n ymwneud â ffioedd gofal.

Hoffem dynnu eich sylw at ddiystyriad yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cod Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol) sy'n cwmpasu'r taliadau ex-gratia a wnaed gan WIBSS a'r sefydliadau blaenorol o'r enw "Alliance House". Nodir hyn yn y cod ac mae'n ymddangos fel diystyriad llawn, sy'n berthnasol i bob math o incwm a chyfalaf fel a ganlyn:

"Cynllun gwaed sydd wedi'i gymeradwyo, hynny yw, cynllun a sefydlwyd neu a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, neu ymddiriedolaeth a sefydlwyd gydag arian a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, i ddarparu iawndal mewn perthynas ag unigolyn sydd wedi'i heintio â chynhyrchion gwaed heintiedig".

Fel cynllun gwaed sydd wedi'i gymeradwyo, bydd cronfeydd WIBSS a chronfeydd ei ragflaenydd yn cael eu diystyru'n llawn. Mae rhagor o fanylion yn rhoi dadansoddiad o'r senario i'w gweld ar ochr arall y dudalen. Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach neu os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â ni drwy e-bostio WIBSS@wales.nhs.uk neu drwy ffonio 02920 902280.

Yr eiddoch yn gywir,

Sarah Ferrier

Cynghorydd Hawliau Lles
Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
Heintiedig Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

Rhagor o wybodaeth

Cafodd ymddiriedolaethau'r 'Alliance House' eu sefydlu i gefnogi'r rhai a oedd wedi'u heintio â Hepatitis C neu HIV o ganlyniad i gynhyrchion gwaed heintiedig y GIG. Roeddent yn gynlluniau talu ex-gratia a oedd yn gwneud taliadau i unigolion a oedd yn cwrdd â'r meini prawf hyn. I ddechrau, roeddent yn darparu cyfandaliad a oedd yn dibynnu ar ddifrifoldeb iechyd unigolyn ac yna'n ddiweddarach, roedd cymorth ariannol mwy rheolaidd yn fisol neu'n chwarterol yn cael ei dalu.

Ers 1 Tachwedd 2017, darparwyd cefnogaeth ariannol gan sefydliadau llywodraethol datganoledig yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban, yn dibynnu ar ble cafodd unigolyn ei heintio. Yng Nghymru, mae hwn bellach wedi dod yn Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS), a letyir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Sylwch, pan ddarperir tystiolaeth o daliadau ex-gratia sy'n daladwy gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, bydd y symiau hyn i'w talu am gyfnod amhenodol. Yn ogystal â ffioedd gofal, nid yw taliadau a wneir yn ddarostyngedig i unrhyw dreth incwm, na thaliadau (sy'n cynnwys symiau misol a chyfandaliad) sydd wedi'u cynnwys wrth gyfrifo hawl i unrhyw fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn berthnasol i bob cynllun blaenorol sy'n darparu cymorth ariannol ex-gratia.

Mae rhagor o wybodaeth ar sut y diystyri'r taliadau hyn i'w gweld yn y ddeddfwriaeth ganlynol;

- Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Gwaed Heintiedig a Thalidomide) 2017
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013
- Gorchymyn Cynlluniau Gwaed Heintiedig (Cymhwyso Adrannau 734 a 2005 Deddf Treth Incwm (Masnachu ac Incwm Arall) 2005) 2017